# Polisi Caethwasiaeth Fodern

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur a gwasanaeth: Alun Williams, Cefnogi Polisi
Dyddiad cymeradwywyd gan Cyngor: 7 Rhagfyr 2017
Asesiad Effaith Integredig: Oes
Dyddiad cyhoeddi: 2 Ionawr 2018
Dyddiad Adolygu Polisi: Ionawr 2021

## Polisi Caethwasiaeth Fodern Cyngor Sir Ceredigion

### Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn amlinellu amcanion ac ymrwymiadau Cyngor Sir Ceredigion i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern.

Gwnaeth y canlynol ddylanwadu ar ddatblygiad y polisi hwn:

- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Polisi a Chanllawiau Cyngor Sir Ceredigion ar Ddiogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl 2016.
- Y polisïau a'r prosesau diogelu
- Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi
- Cydlyniant Cymunedol - Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru

### Trosolwg

- Mae Polisi Caethwasiaeth Fodern Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu dull integredig sy'n dod â meysydd allweddol ynghyd gan gynnwys diogelu, adnoddau dynol, caffael ac argyfyngau sifil posibl. Mae Polisi Atal Caethwasiaeth Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn cynnwys 12 ymrwymiad y Cod ac mae'n cyfeirio at y prosesau diogelu a chyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

### Amcanion y Polisi

- Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod adroddiadau ynglŷn â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl ynghyd â chefnogaeth i ddioddefwyr yn cael eu prif ffrydio yn y systemau a'r prosesau diogelu.

- Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn llunio datganiad blynyddol a gaiff ei gymeradwyo a'i lofnodi gan y Grŵp Arweiniol i nodi nad oes achosion o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn y gadwyn gyflenwi. Cyhoeddir y datganiad blynyddol ar wefan y Cyngor Sir.

- Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn penodi Aelod Etholedig yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth.

### Mae Caethwasiaeth Fodern neu Fasnachu Pobl yn cynnwys y canlynol:

- Recriwtio plant ac oedolion agored i niwed
- Eu symud nhw i rywle arall, yn aml i wlad arall
- Defnyddio bygythiadau, grym neu dwyll i wneud iddynt wneud rhywbeth yn erbyn eu hewyllys
- Camfanteisio arnynt i wneud arian neu ddarparu gwasanaethau ar gyfer eu masnachwyr.

### Mathau o Gamfanteisio

- Camfanteisio ar Weithwyr
- Camfanteisio'n Rhywiol
- Camfanteisio Troseddol
- Caethwasanaeth Domestig
- Tynnu Organau

**Ystadegau**
Amcangyfrifir bod rhwng 10,000 a 13,000 o bobl yn y Deyrnas Unedig yn dioddef yn sgil Caethwasiaeth Fodern. Yn 2016, cyfeiriwyd 3,805 o ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, cynnydd o 17% o gymharu â 2015.

Yng Nghymru, cyfeiriwyd 123 o ddioddefwyr posibl i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gostyngiad o 8.3% o gymharu â'r cyfanswm a gyfeiriwyd yn 2015. O blith y 123 o bobl a atgyfeiriwyd, roedd 62 ohonynt yn fenywod a 61 ohonynt yn ddynion. Roedd 102 neu 83% o'r atgyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion ac roedd 17% o'r atgyfeiriadau yn ymwneud â phlant.

Y mathau mwyaf cyffredin o gamfanteisio yng Nghymru yn 2016 oedd y canlynol:
- Camfanteisio ar weithwyr - roedd 42 o ddynion yn ddioddefwyr posibl.
- Camfanteisio'n rhywiol - roedd 25 o fenywod yn ddioddefwyr posibl.
- Caethwasanaeth Domestig - roedd 18 o fenywod yn ddioddefwyr posibl.

Yng Nghymru, roedd 10 o blant yn ddioddefwyr posibl o gamfanteisio ar weithwyr neu gaethwasanaeth domestig. Roedd 9 o ferched yn ddioddefwyr posibl o gamfanteisio rhywiol, gan gynnwys 5 o wladolion y Deyrnas Unedig.

Roedd y nifer uchaf o ddioddefwyr posibl yn dod o'r bum gwlad ganlynol:-
- Fietnam - 16
- Eritrea - 12
- Nigeria - 12
- Sudan - 9
- Y Deyrnas Unedig - 9

**Strwythurau yng Nghymru**
Mae Grŵp Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol Dyfed-Powys yn cynnal cyfarfodydd ac mae'n cynllunio'r modd y cyflawnir y gwaith atal caethwasiaeth yn strategol ac yn rhanbarthol. Mae'r grŵp yn dod o dan Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru a Grŵp Gweithredol Atal Caethwasiaeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth.

Cyflwynwyd **Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015** i wneud caethwasiaeth, caethwasanaeth a masnachu pobl yn drosedd yn y Deyrnas Unedig.

**O dan y Ddeddf, mae gan Awdurdod Lleol nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol:**

- **Datganiad Blynyddol,** mae hyn yn ofyniad o dan adran 54 o'r Ddeddf ar gyfer sefydliadau masnachol sy'n bodloni'r meini prawf a ragnodir gan y rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn achos yr Awdurdod Lleol, mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi hefyd yn nodi y dylid gwneud datganiad blynyddol. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn llunio datganiad blynyddol, a gaiff ei gymeradwyo a'i lofnodi gan y Grŵp Arweiniol, i nodi nad oes achosion o gaethwasiaeth a

masnachu pobl yn y sefydliad nac yn ein cadwyn gyflenwi. Cyhoeddir y datganiad blynyddol ar wefan y Cyngor Sir.

Yr Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth fydd yn gyfrifol am lunio a chyhoeddi'r Datganiad Blynyddol, gyda chefnogaeth y Pennaeth Cefnogi Polisi. Bydd y datganiad yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu perthnasol ac yn cael ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor.

- **Y ddyletswydd i hysbysu'r Swyddfa Gartref am Ddioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern.** Mae'r ddyletswydd i hysbysu wedi'i nodi yn adran 52 y Ddeddf ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o bobl yr amheuir eu bod yn dioddef yn sgil caethwasiaeth neu fasnachu pobl. Mae'r Swyddfa Gartref wedi paratoi canllawiau a ffurflenni hysbysu. Bydd y Cyngor Sir yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref am ddioddefwyr posibl.
  Cyfarwyddwr Strategol, Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw sy'n **gyfrifol** am roi gwybod i'r Swyddfa Gartref.

- **Fel Ymatebydd Cyntaf, mae gan yr Awdurdod Lleol y cyfrifoldeb i gyfeirio dioddefwyr posibl** i'r awdurdod cymwys, (Yr Uned Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern) drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Mae ffurflenni'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gael ac mae Grŵp Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol Dyfed Powys wedi paratoi Llwybr Gofal i Ddioddefwyr sy'n cynnwys prosesau ar gyfer oedolion a phlant. Bydd y Cyngor Sir, fel yr ymatebydd cyntaf, yn cyfeirio dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Cyfarwyddwr Strategol, Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw sy'n **gyfrifol** am gyfeirio dioddefwyr posibl i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

- **Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant**. Mae rôl yr Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant wedi'i hamlinellu yn Adran 48 o'r Ddeddf, '*Cyfarwyddyd Dros Dro i'r Tri Safle Mabwysiadu Cynnar ar Eiriolwyr Masnachu Plant Annibynnol'.* Mae Cymru gyfan wedi'i dewis fel safle mabwysiadu cynnar. Felly mae'n ofynnol i Awdurdod Lleol yng Nghymru atgyfeirio unrhyw blant sy'n ddioddefwyr posibl yn sgil masnachu pobl i'r gwasanaeth Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant a reolir gan Barnardo's. Bydd y Cyngor Sir yn atgyfeirio plant sy'n ddioddefwyr posibl o fasnachu pobl i'r Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant.
  Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sy'n **gyfrifol** am gyfeirio plant sy'n ddioddefwyr i'r Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant.

**Diogelu**

Mae Awdurdod Lleol Ceredigion yn aelod o Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae ei nodau craidd fel a ganlyn:

- Amddiffyn plant ac oedolion yn eu hardal a allai fod yn wynebu camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed neu sydd mewn perygl o wynebu hyn.
- Atal plant ac oedolion yn eu hardal rhag bod mewn perygl o wynebu camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

Yn lleol, mae Grŵp Gweithredu Lleol Diogelu Plant (CYSUR) a Grŵp Gweithredu Lleol Diogelu Oedolion (CWMPAS) yn bodoli. Mae'r Grwpiau Gweithredu Lleol yn cydweithio o fewn cyd-destun amlasiantaethol i gadw plant ac oedolion, a allai fod mewn perygl, yn ddiogel yn eu hardal leol.

Mae'r prif amcanion yn cynnwys:

1. Sicrhau bod yr arferion diogelu, cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau ar draws yr holl asiantaethau partner yn gwella yn barhaus a'u bod yn hyrwyddo canlyniadau da i blant ac oedolion a allai fod mewn perygl yn eu hardal leol.
2. Creu fforwm lle ceir dysgu ar y cyd, rhannu gwybodaeth ac arweiniad mewn amgylchedd aml-asiantaethol
3. Bydd gweithio ar y cyd hefyd yn ein herio'n broffesiynol ac yn ein dal ni oll i gyfrif pan fydd arferion diogelu yn disgyn yn is na'r safonau disgwyliedig.

Mae cynrychiolwyr o Geredigion yn aelodau o Grŵp Atal Caethwasiaeth Rhanbarthol Dyfed Powys sy'n cyfrannu gwybodaeth a chamau perthnasol at y Grwpiau Gweithredu Lleol fel rhan o agenda trawsbynciol Oedolion a Phlant.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion Bolisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl (Medi 2016) sy'n amlinellu rolau, cyfrifoldebau a phrosesau allweddol o ran diogelu.

Mae'r dogfennau perthnasol eraill yn cynnwys:-

- Y Llwybr Gofal i Ddioddefwyr
- Y ddyletswydd i hysbysu'r Swyddfa Gartref am ddioddefwyr posibl Caethwasiaeth Fodern - Ffurflen a Chanllawiau
- Cyfarwyddyd Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Diogelu Plant a Allai Fod Wedi Cael Eu Masnachu.
- Llawlyfr Gweithredol Masnachu Plant Cymru
- Canllawiau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymatebwyr Cyntaf o ran Plant
- Canllawiau Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Oedolion sy'n Ddioddefwyr Posibl Caethwasiaeth Fodern, Cymru a Lloegr
- Protocol Masnachu Plant Cymru Gyfan
- Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol - Cymru Gyfan
- Strategaeth CYSUR ar gyfer Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol
- Canllawiau ar gyfer Eiriolwyr Annibynnol ar Fasnachu Plant, Cymru

Cyfarwyddwr Strategol Gofal, Amddiffyn a Ffordd o Fyw Cyngor Sir Ceredigion fydd yn parhau'n **gyfrifol** am ddiogelu dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern yng Ngheredigion. Mae Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion eisoes wedi cadarnhau'r polisi hwn a bydd hefyd yn mynd gerbron Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ôl i'r Cyngor Sir ei gymeradwyo.

**Canolfannau Derbyn Goroeswyr**

Caiff Canolfannau Derbyn Goroeswyr eu sefydlu a'u rheoli gan yr Heddlu i gasglu gwybodaeth gan oroeswyr a gellid eu defnyddio pan fo'r nifer o ddioddefwyr posibl Caethwasiaeth Fodern yn rhy fawr i gael llety yn y tai diogel sydd eisoes yn bodoli.

Yr Heddlu sy'n cymryd **cyfrifoldeb** arweiniol am gynllunio ac agor Canolfannau Derbyn Goroeswyr. Pan fydd angen, bydd y canolfannau derbyn goroeswyr yn cael eu hystyried a'u nodi fesul achos, gan ddefnyddio partneriaethau argyfyngau sifil posib ac amlasiantaethol ar lefel y Grŵp Rheoli Tactegol. Nid oes gan Awdurdodau Lleol gyfleusterau ar gyfer canolfannau derbyn parhaol sy'n addas i ddioddefwyr Caethwasiaeth Fodern. Bydd Uned Argyfyngau Sifil Posib Cyngor Sir Ceredigion yn darparu ystod o gefnogaeth i'r Heddlu drwy'r broses, yn ôl yr angen.

**Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi**
Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod yr Awdurdodau Lleol yn ymrwymo i'r Cod.

**Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer a bydd holl Wasanaethau'r Cyngor yn cadw at y Cod. Y Gwasanaeth Cefnogi Polisi fydd yn gyfrifol am fonitro'r cynnydd a wneir yn erbyn y cod.**

**Bydd y Cyngor yn llunio Datganiad Blynyddol ar gyflogaeth foesegol.**

**Bydd y Cyngor yn penodi Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth.**

**Mae Polisi Caethwasiaeth Fodern Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y 12 ymrwymiad sydd yn y cod.**

1. **Llunio polisi ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol yn ein sefydliad a'n cadwyni cyflenwi gan gynnwys penodi Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth.**
   Mae'r polisi Caethwasiaeth Fodern hwn yn cynnwys cyflogaeth foesegol. Bydd y polisi yn cael ei ddosbarthu i'r holl wasanaethau yng Nghyngor Sir Ceredigion. Byddwn yn monitro ei heffeithiolrwydd ac yn adolygu'r polisi. Hefyd, bydd y Cyngor yn penodi Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth.

2. **Llunio polisi ar chwythu’r chwiban.**
   Cymeradwyodd y Cabinet bolisi Cyngor Sir Ceredigion ar chwythu'r chwiban ar 17 Mai 2016. Mae'r polisi yn amlinellu ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i gyflawni ei fusnes yn onest a chydag uniondeb, gan feithrin diwylliant agored ac atebol ynghyd â diogelu'r rheini sy'n chwythu'r chwiban. Bydd pecyn e-ddysgu ar Chwythu'r Chwiban yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer yr holl staff.

3. **Darparu rhaglen hyfforddi ar gaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol.**
   Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn nodi anghenion hyfforddi'r staff gan ddarparu hyfforddiant parhaus priodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth o gaethwasiaeth modern a cham-drin hawliau dynol, gan gynnwys masnachu pobl. Bydd cronfa ddata 'CERI' yn cofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â phob gweithiwr sydd wedi bod ar hyfforddiant ynghylch caethwasiaeth fodern a chyflogaeth

foesegol. Darperir gwybodaeth i bob Pennaeth Gwasanaeth bob mis am bresenoldeb eu gweithwyr mewn digwyddiadau hyfforddi.

4. **Sicrhau bod arferion cyflogaeth yn cael eu prif ffrydio yn y broses gaffael.**
   Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn bod copi o Bolisi Atal Caethwasiaeth y Cyngor yn cael ei gynnwys ym mhob tendr a dogfen berthnasol. Bydd cwestiwn byr ar gyflogaeth foesegol hefyd yn cael ei gynnwys yn y tendrau. Bydd Cod Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn cael ei lwytho i dendrau newydd. Bydd y tendrau presennol sydd mewn categorïau risg uchel yn cael eu nodi a byddant yn cael copi o'r cod. Caiff cyfres o gwestiynau ei pharatoi a bydd elfennau perthnasol y cod yn cael eu cynnwys yn y contractau.

5. **Gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym yn gweithio yn peryglu arferion cyflogaeth foesegol.**
   Bydd y Cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr i sicrhau nad ydynt yn peryglu arferion cyflogaeth foesegol. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y cyflenwyr yn cael eu talu mewn da bryd.

6. **Disgwyl i'r cyflenwyr ymrwymo i'r Cod**
   Bydd y Cyngor yn annog cyflenwyr i ymrwymo i'r cod ymarfer.

7. **Asesu gwariant i nodi materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern, torri hawliau dynol ac arferion anfoesegol, ac ymdrin â hwy.**
   Bydd Gwasanaeth Caffael Cyngor Sir Ceredigion yn adolygu'r gwariant. Bydd meysydd gwasanaeth Cyngor Sir Ceredigion yn ymgysylltu'n uniongyrchol â gweithwyr contract a byddant yn gweithio gyda chyflenwyr i unioni materion sy'n ymwneud ag ymarferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol. Bydd y meysydd gwasanaeth yn monitro arferion cyflogaeth y cyflenwyr risg uchel.

8. **Sicrhau na fydd unrhyw arferion hunangyflogi ffug yn cael eu cynnal ac na fydd cynlluniau mantell a chontractau dim oriau yn cael eu defnyddio'n annheg.**
   Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn lliniaru unrhyw risg o gyflogaeth anfoesegol trwy asesu cymhwysedd pob hawliad gan bobl hunangyflogedig yn erbyn canllawiau Cyllid a Thlodi Ei Mawrhydi gan sicrhau bod cynlluniau mantell ac asiantaethau wedi'u cofrestru â'r cyrff rheoleiddio priodol. Yn ychwanegol at hyn, bydd Adnoddau Dynol yn adolygu contractau wrth gefn yn rheolaidd, i sicrhau bod gweithwyr yn cael yr hawl i gael eu cydnabod gyda statws gweithiwr, lle bo hynny'n briodol.

9. **Sicrhau bod gweithwyr yn rhydd i ymuno ag Undeb Llafur heb berygl y byddant yn wynebu unrhyw fath o wahaniaethu yn eu herbyn.**
   Bydd Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod gweithwyr yn rhydd i ymuno ag Undeb Llafur heb berygl y byddant yn wynebu unrhyw fath o wahaniaethu yn eu herbyn.

10. **Ystyried talu Cyflog Byw'r Sefydliad Cyflog Byw fel isafswm ac annog y cyflenwyr i wneud yr un fath.**

Mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion y Cyflog Byw Cenedlaethol yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor a daeth hyn i rym ar 1 Ebrill 2015. Caiff tâl atodol y cyflog byw ei dalu yn ychwanegol at y gyfradd fesul awr ar gyfer pwynt 7 ac 8 ar y golofn a bydd hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn derbyn swm sy'n cyfateb i Bwynt 9 ar y golofn gyflogau fel y gyfradd isaf fesul awr.

11. **Llunio datganiad blynyddol ysgrifenedig i sicrhau nad oes unrhyw achos o gaethwasiaeth na masnachu pobl yn unrhyw ran o'r sefydliad a'r cadwyni cyflenwi.**
Bydd yr Awdurdod Lleol yn paratoi datganiad blynyddol ar gaethwasanaeth a masnachu pobl. Bydd y datganiad blynyddol yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac yna bydd y Cabinet yn ei gymeradwyo. Bydd yr Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol ac Atal Caethwasiaeth yn ei gymeradwyo a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir.

**12. Sicrhau bod y rheini sy'n gwneud gwaith ar gontract allanol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.**
Yn unol â "Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006", caiff hawliau gweithwyr eu diogelu pan fydd y sefydliad neu'r gwasanaeth y maent yn gweithio iddo yn trosglwyddo i gyflogwr newydd. Mae contractau allanol hefyd yn ddarostyngedig i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Faterion y Gweithlu (Y Cod Dwy Haen). Bydd y Cyngor Sir yn parhau i gadw at y rheoliadau hyn.